

BAVO

Bridgend Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr

BWLETIN ARIANNU

BAVO

10 Mai 2021

Mae ein e-fwletin ariannu diweddaraf yn cael manylion o gyfleoedd cyllido i helpu gyda'r gwaith gwyh sy'n cael ei wneud gan ein sector gwirfoddol lleol.

Edrychwch isod ...



Cronfa Gymunedol Leol y Co-op

Mae'r ceisiadau'n agor ar 4 Mai 2021.

Pob tro y bydd eu haelodau'n prynu cynhyrchion a gwasanaethau dethol brand y Co-op, bydd y Co-op yn rhoi help llaw i achosion lleol. [Darganfyddwch fwy ...](#)

Made by Sport – Cronfa 'Clybiau mewn Argyfwng'

Dyddiad cau: 21 Mai 2021 am 12yp.

Cronfa bwrpasol ar gyfer grwpiau cymunedol, sefydliadau'r trydydd sector a chlybiau chwaraeon i bobl ifanc sy'n gweithio yn y sector chwaraeon ar gyfer datblygu. Diffinnir chwaraeon i'w datblygu fel defnydd bwriadol o chwaraeon i gyflawni canlyniadau cymdeithasol ehangach fel y rhai a restrir isod. [Darganfyddwch fwy ...](#)

Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn gofyn am geisiadau gan sefydliadau sy'n dymuno darparu gweithgaredd fel rhan o Gronfa Adnewyddu Gymunedol y DU

Dyddiad cau: 7yb, 24 Mai 2021

Mae Cronfa Adnewyddu Gymunedol y DU (UKCRF) i gefnogi pobl a chymunedau sydd fwyaf mewn angen ledled y DU, gan greu cyfleoedd i dreialu dulliau newydd a syniadau arloesol ar lefel leol. [Darganfyddwch fwy ...](#)

Helpwch y Digartref

Dyddiadau cau: 15 Mehefin / 15 Medi / 15 Rhagfyr 2021.

Mae cyllid ar gael i sefydliadau sydd â'r nod o helpu pobl ddigartref i ddychwelyd i'r gymuned a'u galluogi i ailafael mewn bywyd normal. [Darganfyddwch fwy ...](#)

Rhaglen Grantiau Materion Cymunedol Teuluoedd Warburtons

Dyddiad cau: 9 Awst 2021.

Mae grantiau bach hyd at £400 ar gael ar gyfer prosiectau, gweithgareddau a sefydliadau lleol sydd â nodau elusennol a fydd o fudd uniongyrchol gwirioneddol i deuluoedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. [Darganfyddwch fwy ...](#)

Cronfa Actif

Nod y gronfa hon yw diogelu a sicrhau cynnydd clybiau a sefydliadau chwaraeon cymunedol yng Nghymru drwy'r pandemig Covid-19 ac i'r dyfodol. Mae yna dau grant ar gael i fynd i'r afael â'r gwahanol heriau mae clybiau a sefydliadau yn eu hwynebu:

1. Grantiau diogelu o £300 - £5,000 ar gyfer cefnogaeth argyfwng
2. Grantiau cynnydd o £300 - £50,000 * ar gael

* Bydd angen i chi wneud cyfraniad o 10% ar gyfer grantiau dros £10,000 neu 20% dros £25,000.

[Darganfyddwch fwy ...](#)

Ymddiriedolaeth Elusennol Fidelio

Mae cyllid ar gael i gefnogi'r celfyddydau yn arbennig ar gyfer Cerddoriaeth, gan gynnwys opera, lieder, cyfansoddi a dawns. [Darganfyddwch fwy ...](#)

Sefydliad Banc Lloyds ar gyfer Cymru a Lloegr

Nid oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau

Mae grantiau anghyfyngedig o £50,000 dros ddwy flynedd ar gael i sefydliadau sydd ag incwm rhwng £25,000 ac £1 miliwn. [Darganfyddwch fwy ...](#)

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mae grantiau o £3,000 i £10,000 a £10,000 i £100,000 cyllid prosiect gwydnwch a chymhwysiant ar gael i gefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda threftadaeth, i addasu ac ymateb i'r amgylchedd newidiol y maen nhw bellach yn gweithredu ynddo. [Darganfyddwch fwy...](#)

Cronfa Rhwydweithiau Natur

Ceisiadau am £50,000 - £100,000 yn cau am hanner dydd ar 24 Mai 2021.

Nod y Gronfa Rhwydweithiau Natur yw cryfhau gwydnwch rhwydwaith Cymru o dir gwarchodedig a safleoedd morol, gan gefnogi adferiad gwyrdd i natur a chymunedau.

[Darganfyddwch fwy ...](#)

Ailenwyd Cronfa Bagiau Cymorth Tesco yn Grantiau Cymunedol Tesco gyda ffocws ar blant a theuluoedd

Yn cael eu gweinyddu gan Groundwork, derbynnir ceisiadau cymwys gyda ffocws ar gefnogi plant a theuluoedd. [Darganfyddwch fwy ...](#)

Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel

Grantiau ar gael i gefnogi gwaith atgyweirio a chadwraeth yn dilyn arfer cadwraeth gorau. Bron pob cofeb rhyfel yn gymwys i gael cefnogaeth. [Darganfyddwch fwy yma ...](#)

Mae Gwobrau'r Loteri Genedlaethol YN ÔL ar gyfer 2021!

Mae enwebiadau bellach ar agor ar gyfer arwyr y cyfnodau clo, yr arwyr lleol a hyrwyddwyr cymunedol. Enwebwch unigolyn neu brosiect sydd wedi gwneud gwahaniaeth, a gallent ennill £3,000 i'w sefydliad. [Darganfyddwch fwy yma ...](#)

Rydym yn diweddarau ein tudalennau gwe cyllido a'n cyfryngau cymdeithasol yn ddyddiol gyda chyfleoedd cyllido newydd, felly peidiwch ag anghofio cysylltu am y wybodaeth ddiweddaraf!



www.bavo.org.uk/cy/
[@BAVO_cvc](https://www.facebook.com/BAVOhub)

Chwilotwr cyllid am ddim i sector gwirfoddol Cymru

Bydd Cyllido Cymru yn cynorthwyo i gysylltu elusennau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yng Nghymru â'r cyllid sydd ei angen arnynt.

Gallwch chwilio trwy gannoedd o gyfleoedd cyllid grant a benthygiad o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, o grantiau bychain i prosiectau cyfalaf mawr. I fanteisio ar y chwilotwr cyllid, cofrestrwch ar cy.funding.cymru/

Os oes angen help arnoch i gofrestru, mae Swyddogion Datblygu BAVO yn hapus i'ch helpu.

Mae Cyllido Cymru yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio i unrhyw un sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.



Sut gall cyllidwyr ddod o hyd i chi....

Ymunwch â chronfa ddata genedlaethol trydydd sector 'infoengine' am ddim! Os ydych chi'n sefydliad neu'n grŵp gwirfoddol, trwy gofrestru'ch sefydliad, bydd gennych restr AM DDIM yn eu cyfeirlyfr cynhwysfawr, byddwch yn gallu hyrwyddo'ch gwasanaethau i gynulleidfa eang a denu pobl yn eich cymuned a thu hwnt! Cofrestrwch ar en.infoengine.cymru
Os oes angen help arnoch i gofrestru, cysylltwch â BAVO.

Rydym yn sylweddoli bod sefydliadau'r trydydd sector yn wynebu amseroedd heriol felly rydym am eich helpu i gynyddu eich siawns o lwyddo i'r eithaf.

Oeddech chi'n gwybod yn 2019/20, dyfarnwyd dros £306,000 i sefydliadau lleol trwy gynlluniau grant a reolir gan BAVO a chawsant £444,000 yn dilyn cefnogaeth ariannu BAVO?

**Gallwch gysylltu â'n Swyddogion Datblygu i gael cymorth ariannol trwy gysylltu â BAVO:
T: 01656 810400 neu E: bavo@bavo.org.uk**

GWYBOD Y GWIR

MAE'R BRECHLYN YN DDIOGEL AC YN EFFEITHIOL

Mae'r brechlyn Prifysgol Rhydychen-AstraZeneca yn ddiogel ac yn effeithiol o hyd ac mae wedi achub miloedd o fywydau yn barod.

Dim ond os yw'n ddiogel gwneud hynny, ac os oes mwy o fanteision nag o risg yn parhau i fod yn gysylltiedig â hynny, y byddwn yn defnyddio brechlynnau.

Nid yw'r brechlynnau'n defnyddio'r feirws byw sy'n achosi COVID-19. Ni all y brechlyn roi COVID-19 ichi.

Bydd cael y brechlyn a dilyn mesurau amddiffyn yn helpu i'ch amddiffyn chi, a'ch teulu a'ch ffrindiau rhag mynd yn ddifrifol wael neu farw o'r feirws.



llyw.cymru/coronafeirws-y-ffeithiau



Cefnogi Trydydd
Sector Cymru
Third Sector
Support Wales



CYBER
ESSENTIALS

www.bavo.org.uk

T / Ff: 01656 810400 • E: bavo@bavo.org.uk

Company no / Rhif cwmni: 07691764

Charity registration no / Rhif cofrestru'r elusen: 1146543

[Unsubscribe](#)